**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**5 HYDREF 2022**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE** |
| **Pwnc:** | **Cynhadledd Ranbarthol GwE 2022** |
| | **'Arweinyddiaeth sy'n Ysbrydoli: Rhoi'r profiadau gorau un i'n dysgwyr'** |

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-bwyllgor am gynhadledd ranbarthol GwE.

## 2.0 Cefndir

2.1 Wrth edrych ymlaen at y flwyddyn academaidd ddilynol ar ddiwedd tymor yr haf, a pharhau â'r cydweithio gyda ysgolion y rhanbarth ar wreiddio'r Cwricwlwm a goblygiadau'r Canllawiau Gwella Ysgolion newydd, penderfynwyd cynnal cynhadledd ar gyfer Arweinwyr / Uwch Arweinwyr yn Venue Cymru, Llandudno ar Fedi 22ain a 23ain, 2022. Bwriad y Gynhadledd "Arweinyddiaeth Ysbrydoledig: Rhoi'r profiadau gorau bosib i'n dysgwyr" oedd rhoi cyfle i osod cyfeiriad ein gwaith i'r dyfodol a ffocysu ar anghenion cefnogaeth ysgolion wrth symud ymlaen.

## 3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Prif amcanion y gynhadledd oedd:

- Ysbrydoli Arweinwyr
- Sut i roi'r profiadau gorau i ddysgwyr
- Gosod cyfeiriad cenedlaethol a lleol
- Cyfle i ddylanwadu ar gyfeiriad y gefnogaeth i ysgolion
- Cydweithio
- Cyfle i fyfyrio ar flaenoriaethau ysgol / clwstwr / cynghrair

- Rhannu arfer gan arbenigwyr rhyngwladol a lleol
- Cefnogi lles penaethiaid yn y cyfnod nesaf
- Rôl Estyn yn y cyfnod nesaf
- Arlwy Dysgu Proffesiynol

3.2 Dros y ddau ddiwrnod, fe gofrestrodd 541 ar gyfer y gynhadledd, yn cynnwys hyd at ddau gynrychiolydd o ysgolion y rhanbarth, swyddogion ac Aelodau Etholedig yr Awdurdodau Lleol, Prifysgol Bangor a swyddogion GwE.

3.3 Ynghlwm mae copi o'r rhaglen (Atodiad 1), ynghyd â'r arlwy o weithdai oedd ar gael i'r mynychwyr (Atodiad 2). Cafwyd cyflwyniadau, gweithdai a thrafodaethau gyda chydweithwyr a siaradwyr gwadd o'r radd flaenaf.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â'r rhanddeiliaid allweddol arferol.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 – Rhaglen Cynhadledd GwE

9.2 Atodiad 2 – Gweithdai y gynhadledd

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**
Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.